**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (MEMORANDWM RHIF 5)**

**Y Bil Cynllunio a Seilwaith**

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (LCM) hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod LCM, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol gerbron Senedd Cymru os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig.

2. Cyflwynwyd y Bil Cynllunio a Seilwaith ("y Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin, Senedd y DU ar 11 Mawrth 2025. Gosodais LCM ar 26 Mawrth 2025 a Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar 15 Mai 2025, 17 Mehefin 2025 a 7 Awst 2025.

3. Cyflwynodd y Llywodraeth welliannau pellach ar 13 Hydref 2025, ac mae rhai ohonynt yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n roi sylw i faterion datganoledig.

4. Mae fersiwn ddiweddaraf y Bil (fel y'i diwygiwyd yn ystod y Cyfnod Pwyllgor) i'w gweld yma: Y Bil Cynllunio a Seilwaith - Biliau Seneddol - Senedd y DU

## Amcanion polisi

5. Amcanion polisi datganedig Llywodraeth y DU ar gyfer y Bil yw cyflymu a symleiddio'r broses ar gyfer darparu cartrefi a seilwaith critigol newydd, cefnogi i gyrraedd cerrig milltir Cynllun Newid y llywodraeth o adeiladu 1.5 miliwn o gartrefi diogel a gweddus yn Lloegr a chyflymu 150 o benderfyniadau cynllunio ar brosiectau seilwaith economaidd mawr erbyn diwedd Senedd hon y DU. Bydd hefyd yn helpu i wireddu targed Pŵer Glân 2030 y llywodraeth trwy sicrhau bod prosiectau ynni glân yn cael eu hadeiladu cyn gynted ag y medrir. Er mwyn cyflawni hyn, bydd y Bil yn:

   a. Darparu ar gyfer proses gyflymach a mwy pendant ar gyfer cydsynio prosiectau seilwaith critigol a chryfhau'r fframwaith polisi o amgylch Datganiadau Polisi Cenedlaethol.

   b. Rhoi system fwy effeithlon a rhagweladwy ar waith ar gyfer prosiectau seilwaith ynni, gan gynnwys:

      i. Diwygiadau i ddiweddaru'r broses ar gyfer cysylltu â'r grid trydan;
      ii. Sefydlu cynllun trothwyon uchaf ac isaf newydd i ddefnyddio adnoddau storio trydan cyfnod hir;
      iii. Diwygio'r drefn ar gyfer cydsynio seilwaith trydan yn yr Alban, er mwyn lleihau agweddau aneffeithiol ar y system a mabwysiadu arferion gorau;

iv. Sefydlu cynllun gostwng biliau i'r rheini sy'n byw agosaf at seilwaith newydd trawsyrru trydan; a
v. Diweddaru proses ar gyfer trawsyrru trydan o'r môr, trwy estyn cyfnod cymal comisiynu'r cynhyrchydd.

c. Symleiddio'r drefn ar gyfer cynnal prosiectau seilwaith trafnidiaeth a'i gwneud yn fwy effeithlon, gan gynnwys:

i. Newid y broses o gymeradwyo gwaith stryd er mwyn gallu gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan yn gyflymach;
ii. Diwygiadau amrywiol i Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd (TWA) 1992 a Deddf Priffyrdd 1980 i symleiddio prosesau a chyflymu prosiectau; a
iii. Adennill costau Gorchmynion Diwygio Harbyrau yn well.

d. Cyflwyno dull mwy strategol o adfer natur mewn perthynas â datblygu, gan alluogi datblygwyr i ariannu'r gwaith adfer yn fwy effeithlon trwy Gronfa Adfer Natur newydd, gan sicrhau canlyniadau gwell i'r amgylchedd.

e. Gwneud penderfyniadau'n well a gwella sicrwydd gan wella capasiti awdurdodau cynllunio lleol trwy eu galluogi i adennill eu costau trwy ffioedd cynllunio.

f. Rhyddhau tir ar gyfer buddsoddiadau mawr, a sicrhau gwerth i'r cyhoedd, trwy ddiwygio'r broses gorchmynion prynu gorfodol a rheolau digolledu.

g. Cryfhau pwerau corfforaethau datblygu i ddarparu seilwaith, gan gynnwys trafnidiaeth, ac egluro a diweddaru cylchoedd gwaith ac amcanion corfforaethau datblygu.

h. Darparu ar gyfer cyflwyno system gynllunio strategol yn Lloegr.

**Crynodeb o'r Bil**

6. Darparwyd crynodeb o'r Bil yn yr LCM cyntaf a osodwyd ar 26 Mawrth 2025, sy'n parhau'n gywir.

**Y diweddaraf am y sefyllfa ers cyhoeddi'r LCM atodol ar 7 Awst**

7. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi bod mewn cysylltiad rheolaidd yn ystod datblygiad y Bil ac mae'r cysylltu hwnnw wedi parhau ar lefelau Gweinidogion a swyddogion pan fo angen.

<u>Cymal 28 "Defnyddio Ystâd Goedwigaeth ar gyfer Trydan Adnewyddadwy"</u>

8. Roedd cynnwys Cymru yng nghymal 28 yn ymgais i ehangu'r pwerau i Gymru, gan adeiladu ar y prosesau presennol i ddatblygu ynni

adnewyddadwy ar Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru. Cynhwyswyd y cymal (cymal 24 fel y'i cyflwynwyd) yn yr LCM, a osodwyd ar 26 Mawrth.

9. Nid oedd y cymal fel y'i drafftiwyd yn wreiddiol, i ganiatáu i'r Comisiynwyr Coedwigaeth (Lloegr) a CNC (Cymru) gyflawni swyddogaethau penodol, yn bodloni'r trefniadau presennol yng Nghymru, ac felly gwnaethom geisio cytundeb Gweinidogol i eithrio Cymru. Mae'r gwelliannau yn cyflawni hynny. Nid yw'r gwelliannau yn bodloni'r prawf ar gyfer LCM atodol o dan RhS 29.2, ac nid yw cydsyniad y Senedd yn cael ei geisio ar eu cyfer.

10. Mae'r gwelliannau hyn yn golygu na fydd CNC yn gallu cynhyrchu a chyflenwi ynni adnewyddadwy nac allforio a gwerthu'r trydan i'r grid o dan yr hyn a fydd yn dod yn adran 3A o Ddeddf 1967. Ar hyn o bryd mae CNC yn dibynnu ar gytundeb a wnaed o dan adran 83 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i ymrwymo i brydlesi gyda'r rhai sy'n cynhyrchu trydan, a disgwylir y bydd yn parhau i wneud hynny. Nid yw'n cynhyrchu nac yn cyflenwi trydan o brosiectau ynni adnewyddadwy CNC ei hun.

**Darpariaethau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU i'r Bil i'w hystyried yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi ar 13 Hydref 2025 y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

11. Mae Llywodraeth Cymru wedi asesu'r gwelliannau canlynol gan Lywodraeth y DU ac yn barnu bod angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd arnynt:

<u>Gwarchod Treftadaeth fel rhan o Orchymyn TWA</u>

- Mae'r gwelliant yn hepgor cymal 41 (datgymhwyso cyfundrefnau treftadaeth) o'r Bil ac yn mewnosod cymal 41 newydd (Rhoi cydsyniad adeilad rhestredig tybiedig etc).

<u>Ffioedd Gorchymyn Harbwr</u>

- Mân gywiriad teipograffyddol i'r ddarpariaeth rhychwant (cymal 111 o'r Bil) i sicrhau ei bod yn adlewyrchu'r cymal Ffioedd Gorchymyn Harbwr fel y'i drafftiwyd.

12. Yn dilyn dadansoddi'r gwelliannau newydd hyn, credaf fod angen yr LCM atodol hwn am y rhesymau a nodir ym mharagraffau 10-27 isod.

<u>Gwarchod Treftadaeth fel rhan o Orchymyn TWA</u>

13. Mae'r gwelliant hwn yn ymwneud â chymal 41 o'r Bil (cymal 37 fel y'i cyflwynwyd).

14. Mae cymal 41 o'r Bil yn rhoi adran 17 newydd yn TWA 1992 ac yn datgymhwyso'r angen am gydsyniad adeilad rhestredig, cydsyniad ardal gadwraeth a chydsyniad heneb gofrestredig pan fyddai angen cydsyniad o'r fath i weithredu datblygiad a awdurdodwyd o dan adran 1 neu 3 o TWA 1992.

15. Cynhwyswyd cymal 41 yn yr LCM fel darpariaeth berthnasol, a osodwyd ar 26 Mawrth.

16. Nid yw'r gwelliant hwn gan y Llywodraeth yn cynnwys cymal 41 (datgymhwyso cyfundrefnau treftadaeth) o'r Bil ac mae'n mewnosod cymal newydd yn ei le.

17. Mae is-adran (1) o'r cymal 41 newydd yn rhoi adran 17 newydd (Adeiladau rhestredig: Lloegr) ac 17A (Adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth: Cymru) yn lle adran 17 (adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth) o TWA 1992.

18. Mae’r adran 17A newydd (i'w mewnosod yn TWA 1992) yn galluogi, ar ôl gwneud Gorchymyn TWA o dan adran 1 neu 3 o'r TWA, Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo bod cydsyniadau treftadaeth yn cael eu tybio (yn hytrach na'u diddymu fel y nodir yn y cymal 41 presennol).

19. Mae is-adran (1) o adran 17A yn caniatáu ar gyfer tybio cydsyniad adeilad rhestredig ac mae is-adran (2) yn caniatáu ar gyfer tybio cydsyniad ardal gadwraeth.

20. Mae is-adran (3) yn cadarnhau, wrth wneud cyfarwyddyd o dan is-adran (1), rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i adran 96(2) o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 (HEWA 2023) (dyletswydd i roi sylw arbennig i adeiladau rhestredig).

21. Yn yr un modd, mae is-adran (4) yn cadarnhau y bydd adran 160(1) o HEWA 2023 (dyletswydd i roi sylw arbennig i ardaloedd cadwraeth) yn gymwys i unrhyw gyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru mewn perthynas ag adeilad mewn ardal gadwraeth fel y byddai'n gymwys i roi cydsyniad adeilad rhestredig mewn perthynas â'r adeilad hwnnw, ac i roi cydsyniad ardal gadwraeth mewn perthynas â'r adeilad dan sylw.

22. Mae is-adran (5) yn cadarnhau y bydd darpariaethau HEWA 2023 yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw gydsyniad adeilad rhestredig tybiedig a chydsyniad ardal gadwraeth tybiedig a roddir o dan yr adran 17A newydd fel pe bai'r cydsyniad wedi'i roi gan Weinidogion Cymru ar gais a atgyfeiriwyd atynt o dan adran 94 o HEWA 2023.

23. Effaith is-adran (6) yw mai dim ond ymgeiswyr o dan y darpariaethau presennol yn TWA 1992 (drwy adolygiad barnwrol) y gall penderfyniadau Gweinidogion Cymru i wneud cyfarwyddiadau o dan yr adran 17A newydd gael eu herio gan na fydd adran 182(2)(b) o HEWA 2023 (penderfyniadau

Gweinidogion Cymru y gellir eu herio drwy adolygiad statudol yn unig) yn gymwys.

24. Mae is-adran (7) yn darparu diffiniadau ar gyfer termau a ddefnyddir yn yr adran 17A newydd. Cymerir y rhain o HEWA 2023.

25. Mae is-adran (2) o'r cymal 41 newydd yn gwneud diwygiadau i adran 22 o TWA 1992. Mae'r diwygiadau hyn yn ganlyniadol ar y diwygiadau a wnaed yn is-adran (1).

26. Mae is-adran (3) o'r cymal 41 newydd yn hepgor is-adran (3A) o adran 12 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 (atgyfeirio ceisiadau am gydsyniad adeilad rhestredig at yr Ysgrifennydd Gwladol) fel y'i mewnosodwyd gan adran 17 o TWA 1992.

27. Mae is-adran (4) o'r cymal 41 newydd yn diwygio adran 94(4) o HEWA 2023 i fewnosod "i'r Ysgrifennydd Gwladol" ar ôl "cais" yn yr ail fan y mae'n digwydd. Mae hyn yn newid effaith y ddarpariaeth fel bod yn rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol atgyfeirio'r cais at Weinidogion Cymru i'w benderfynu pan fo cais i'r Ysgrifennydd Gwladol am Orchymyn o dan TWA 1992, os canlyniad y cais hwnnw yw bod angen cydsyniad adeilad rhestredig ar gyfer adeilad yng Nghymru. Ni fydd effaith bresennol y ddarpariaeth bellach yn gymwys oherwydd y gallu i dybio cydsyniad.

28. Mae cymal 112 o'r Bil sy'n ymwneud â darpariaethau cychwyn a throsiannol wedi'i ddiwygio i ddarparu y bydd y disodli arfaethedig ar gyfer cymal 41 yn dod i rym drwy reoliadau ar y cyfryw ddiwrnod ag y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol ei bennu.

<u>Ffioedd Gorchymyn Harbwr</u>

29. Cynhwyswyd cymal 46 "Ffioedd ar gyfer ceisiadau am orchmynion harbwr" ym Memorandwm Rhif 4.

30. Mae'r gwelliant hwn gan y Llywodraeth yn gywiriad teipograffyddol sydd ei angen er mwyn sicrhau bod y darpariaethau "rhychwant" yng nghymal 111 o'r Bil yn adlewyrchu cymal 46 fel y'i drafftiwyd.

**Barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad**

31. Mae Llywodraeth y DU o'r farn bod angen LCM ar y gwelliannau canlynol gan y Llywodraeth:

- Gwarchod Treftadaeth fel rhan o Orchymyn TWA
- Ffioedd Gorchymyn Harbwr (mân a thechnegol)

32. Rwy'n cytuno â dadansoddiad Llywodraeth y DU o ddatganoli mewn perthynas â'r gwelliannau hyn.

**Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn i Gymru yn y Bil Cynllunio a Seilwaith**

Gwarchod Treftadaeth fel rhan o Orchymyn TWA

33. Ystyrir bod y cynigion yn dderbyniol gan y byddent yn rhoi'r gallu i Weinidogion Cymru gyfarwyddo bod cydsyniad adeilad rhestredig tybiedig a chydsyniad ardal gadwraeth tybiedig yn cael eu rhoi pan fyddant yn gysylltiedig â gorchymyn a wneir o dan adrannau 1 neu 3 o TWA 1992. Bydd rhoi'r gallu i Weinidogion Cymru dybio'r cydsyniadau hyn yn symleiddio proses ymgeisio TWA, gan y bydd yn dileu'r angen i sicrhau'r cydsyniadau drwy weithdrefnau ar wahân.

34. Mae tybio cydsyniad treftadaeth (ac nid ei ddiddymu fel y darperir ar hyn o bryd yng nghymal 41 o'r Bil) yn golygu y byddai darpariaethau yn HEWA 2023, gan gynnwys pwerau gorfodi, yn gymwys i'r cydsyniadau tybiedig. Bydd hyn yn darparu dull penodol o reoli'r awdurdodiad a roddir, gan gynnwys lle mae gweithfeydd anawdurdodedig i asedau treftadaeth wedi digwydd. Ystyrir bod hyn yn gwella'r darpariaethau presennol.

35. Mae'r ddarpariaeth mai dim ond ymgeiswyr o dan y darpariaethau presennol yn TWA 1992 (drwy adolygiad barnwrol) y gall cyfarwyddiadau o dan adran 17A newydd gael eu herio, gan na fydd adran 182(2)(b) o HEWA 2023 (penderfyniadau Gweinidogion Cymru y gellir eu herio drwy adolygiad statudol yn unig) yn gymwys, yn angenrheidiol ac yn rhesymegol. Heb ddileu'r ddarpariaeth hon byddai dwy broses wahanol ar gyfer herio yn gymwys i'r broses gydsynio, a fyddai'n achosi dryswch. Byddai'r hawl i herio penderfyniad o dan TWA 1992, gan gynnwys y cydsyniad treftadaeth, yn dal i fod yn gymwys.

Ffioedd Gorchymyn Harbwr

36. Mân welliant technegol. Fe'i cynhwysir yn yr LCM atodol hwn i hysbysu'r Senedd gan fod y ddarpariaeth o sylwedd wedi'i chynnwys ym Memorandwm Rhif 4.

**Goblygiadau ariannol**

37. Mae'r asesiad ariannol o'r Bil yn dod i'r casgliad, 'dros y cyfnod arfarnu deng mlynedd, yn unol â gwerthoedd heddiw (prisiau 2025, blwyddyn sylfaen 2026), amcangyfrifir bod cyfanswm o £5.2 biliwn o fuddion yn sgil y Bil, gyda chyfanswm o £2.0 biliwn o gostau. Mae hyn yn golygu effaith gadarnhaol gyffredinol ar gymdeithas sy'n cyfateb i £3.2 biliwn'.

**Casgliad**

38. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol ymdrin â’r darpariaethau hyn ym Mil y DU hwn, ac rwy'n argymell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad.

**Rebecca Evans AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio**

**22 Hydref 2025**